Bwrdd Gweithredol Tŷ'r Cwmnïau – crynodeb o'r cofnodion – 19 Mai 2009

Strategaeth Gynhyrchion
Roedd y papur a gyflwynwyd i'r Bwrdd yn amlinellu'r strategaeth ar gyfer cynhyrchion a gwasanaethau chwilio Tŷ'r Cwmnïau.

Fframwaith Bwrw-ymlaen Strategol
Cyflwynwyd i'r cyfarfod fframwaith bwrw-ymlaen wedi'i symleiddio, gan bennu nifer o ddiwygiadau ychwanegol yn ystod y trafod. Pennwyd mecanwaith ar gyfer llenwi manylion y ddogfen, gan ddarparu ar gyfer adolygu'r fframwaith bob chwarter.

Gwybodaeth Ddibynadwy
I barhau â'r gwaith yn y maes hwn, byddid yn ymgymryd ag ymarferiad i wirio data yn ôl ffynonellau eraill.

Sefyllfa Ddiweddaraf CAP
Roedd y rhaglen hon yn dal i fodloni'r amserlen. Byddai pwyslais ar hyfforddiant yn dod yn flaenoriaeth.

Sefyllfa Ddiweddara'r Rhaglen E100
Roedd eProof ac eAccounts yn dal i fodloni'r amserlen ar gyfer eu gweithredu ym mis Mehefin.

Sefyllfa Ddiweddaraf Bwrdd Busnes yr Asiantaeth (ABB) a Cherdyn Sgorio mis Ebrill
Cyflwynodd yr ABB ei sefyllfa ddiweddaraf ar gyfer y mis. Sylwodd y Bwrdd fod dwy enghraifft o lithro'n ôl yn yr amserlen wedi'u cofnodi ar gyfer y Pasg a dechrau mis Mai. Pennwyd yr achosion a chymerwyd camau unioni. Bu llithro'n ôl yn yr amserlen o ran yr Arolwg Boddhad Cwsmeriaid, gyda gostyngiad yn nifer yr holiaduron oedd yn cael eu dychwelyd gan gwsmeriaid. Byddai'r ABB yn ymchwilio i hyn. Roedd y lefelau cydymffurfio yn aros yn uchel (97.7% o ran cyfrifon, 96% o ran ffurflenni blynyddol).

Cyflawniad Ariannol
Cafodd Pecyn Cyfleu Manylion Ariannol mis Ebrill ei gylchredeg er gwybodaeth ymhlith yr aelodau.

Adolygu Risgiau Gweithredol Tyngedfennol
Adolygodd y Bwrdd y gofrestr risgiau gyfredol, gan gymeradwyo'r diwygiadau i'r portreadau risg presennol.

Ysgrifenyddiaeth Tŷ'r Cwmnïau
Mai 2009